CYNGOR BRO LLANLLWNI
Adroddiad o gyfarfod 13 Mawrth 2023

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.
Cadarnhwyd y byddai cost ychwanegol i osod rhagor o adnoddau ar y cae chwarae. Soniwyd hefyd bod angen gosod pystion newydd ar gyfer y ffens. Ni ddaeth gwybodaeth i law am y caban.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiad mis Ionawr 2023 wedi ei osod ar y wefan. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc bod y gwaith o datblygu'r wefan wedi ei gwblhau.

DIFFIBRILYDDION
Roedd y Clerc wedi archebu'r diffibrilydd newydd ac roedd trefniadau ar y gweill i'w roi yn ei le. Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r cwmni priodol i'w hysbysu nad oes golau glas yn dangos ar y diffibrilydd ar Festri Capel Nonni. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eto am ei fod yn fater brys.

Penderfynwyd derbyn y cynnig o hyfforddiant a ddaethai i law. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei drefnu yn Nghapel Nonni, ond oedd yn bosib trefnu dyddiad tan cyfarfod Mis Mai gan bod Festri Capel Nonni yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd.

CWTERION
Pob cwter rhwng Mayfield ac Abergiar a rhwng T.L.Thomas â Siop y Pentref yn llawn.
Bryn-ceirch yn llawn. Beili-bach, porfa'n cuddio'r gwter.
At hyn mae'r gwter Gorlan-Siop angen ei thrwsio.

TŶ HERS
Bydd CFFI Llanllwni yn llogi'r Tŷ Hers.

CINIO BLYNYDDOL:
Penderfynwyd cynnal y cinio blynyddol yn y Belle Vue ar nos Wener 21 Ebrill 2023 am 7.30yh.

MANTOLEN
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

HEOLYDD
Nodwyd bod ceir yn parcio ar gyffordd 'Ildiwch' ger Pantllyn ac yn creu perygl wrth i drafnidiaeth ymuno â'r briffordd. At hyn soniwyd bod ceir yn parcio ar y palmant ger garej Celtic Classics ac yn creu anhawster i gerddwyr ac o ran diogelwch.

GWARALLT- ERW-LON
Bydd ffordd wedi cau o 15 Ebrill 2023 am 5 diwrnod.

FFYNNON-DDRAIN – GWAR-CWM:
Bydd swyddog yn ailedrych ar y rhan hon o’r hewl gan fod y darn wedi cael ei drwsio gan tarmac gosod.

LLWYBRAU
Nodwyd bod coed wedi cwympo ar y llwybr o Tygraig at yr Eglwys ac yn creu rhwystr peryglus.

Penderfynwyd cefnogi: Eisteddfod Llanfihangl-ar-arth a’r plwyf; Ysgol Gynradd Llanllwni; Macmillan; Gofal mewn Galar.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a’u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 15 Mai 2023.
Cyfarfod Blynyddol am 8yh.
Cyfarfod o’r Cyngor am 8.30yh.